# Cynllunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer cŵn a thrinwyr

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynllunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer cŵn a thrinwyr. Mae'r pwyslais ar hyfforddi'r triniwr i hyfforddi'r ci yn hytrach na hyfforddi'r ci yn uniongyrchol ac mae angen profiad gyda hyfforddiant cŵn a hyfforddi'r triniwr.

Mae'r safon yn cynnwys dylunio a datblygu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer trinwyr a chŵn trwy osod amcanion a thargedau. Mae hefyd yn cynnwys gwerthuso'r ffordd y caiff y rhaglen hyfforddiant ei gweithredu a monitro cynnydd y triniwr â'r ci.

Bydd angen i ddefnyddwyr y safon hon gadarnhau bod arferion hyfforddi yn adlewyrchu'r wybodaeth ddiweddaraf, technegau hyfforddi perthnasol polisïau a gweithdrefnau. Byddant yn gweithio o fewn terfynau eu hawdurdod, achrediad, cymhwyster ac arbenigedd hyfforddiant, ac yn meddu ar wybodaeth ddatblygedig a phrofiad o hyfforddi cŵn, gyda chymorth astudiaethau sydd yn benodol i deulu'r ci, sydd yn drugarog ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Dylent hefyd fod â phrofiad o gyfathrebu â thrinwyr a'u hyfforddi.

Gall yr hyfforddwr hyfforddiant cŵn fod yn gweithio mewn amgylchedd grŵp ac yn hynny o beth bydd angen sgiliau yn cynnwys rheoli grwpiau o drinwyr ynghyd â chŵn. Byddant yn hyfforddwyr cŵn profiadol a bydd ganddynt ddealltwriaeth manwl o sgiliau hyfforddi pobl, dysgu damcaniaethau ac ystod eang o sgiliau cyfathrebu.

Mae bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol ar gyfer darparu dyletswydd gofal yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch yn hanfodol bwysig.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer hyfforddwyr profiadol, wedi eu hyfforddi'n briodol sydd yn gyfrifol am gynllunio a gweithredu rhaglenni hyfforddiant ar gyfer cŵn a thrinwyr.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. rhoi hyfforddiant ar waith yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer cysylltiedig ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau sydd yn berthnasol i'r hyfforddiant neu'r lleoliad
2. cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn ymwneud ag anifeiliaid, polisïau a chodau ymarfer lleol yn ymwneud â chŵn bob amser
3. cytuno a chadarnhau diben a chanlyniadau bwriadol yr hyfforddiant gyda phob parti perthnasol a rheoli'r disgwyliadau ar gyfer y ci â'r triniwr
4. asesu addasrwydd y ci perthnasol i wneud yr hyfforddiant, yn seiliedig ar wybodaeth o ystod o ffynonellau perthnasol
5. asesu'r triniwr a'u gallu i wneud a chynnal yr hyfforddiant, gan ystyried cyflwr corfforol a chyflwr emosiynol y ci
6. asesu cyflwr corfforol a chyflwr emosiynol y ci, gan ystyried cyfnod bywyd y ci (h.y. ci bach, ifanc, oedolyn, hŷn), cyn ac yn ystod hyfforddiant, gan adnabod arwyddion straen, gorbryder, ofnau ffobiâu, atgasedd, ymosodedd, poen, gwrthdaro ac osgoi, ac ymateb yn briodol
7. asesu anghenion hyfforddiant y ci â'r triniwr a chynllunio rhaglen hyfforddiant wedi ei strwythuro sydd yn Benodol, yn Fesuradwy, yn Gyraeddadwy, yn Realistig ac wedi ei Thargedu (SMART)
8. dewis y dulliau â'r adnoddau hyfforddi gofynnol, ar gyfer y ci yr ydych yn gweithio gydag ef, y triniwr â'r canlyniad hyfforddi dymunol, gan ystyried tystiolaeth wyddonol gyfredol, profiad blaenorol, arferion trugarog a deddfwriaeth berthnasol
9. trafod y rhaglen hyfforddi gyda'r triniwr a chael eu dealltwriaeth a'u cytundeb i gyflawni eu dyletswydd i gadw at raglen hyfforddiant wedi ei strwythuro
10. dewis lleoliad addas i wneud yr hyfforddiant, a chynnal asesiad risg i gynnal diogelwch a lles y ci a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
11. trafod a rhyngweithio gyda'r ci mewn ffordd sydd yn caniatáu i hyfforddiant gael ei wneud yn ddiogel ac yn effeithiol ac yn osgoi creu ymddygiad a allai achosi pryderon o ran lles
12. cadarnhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn ddiogel ac yn effeithiol i gyflawni nodau hyfforddiant a diogelu lles y ci
13. cydnabod arddull dysgu penodol y ci ac addasu hyfforddiant yn unol â hynny, gan ystyried nodweddion sydd yn benodol i frîd a symbylwyr ysgogiadol

14.
rhoi arweiniad ac adborth i drinwyr ar eu perfformiad trwy gydol yr hyfforddiant
15.
adnabod, deall a gweithredu ar arwyddion straen y triniwr, yn cynnwys perthnasedd cyfathrebu nad yw'n llafar
16. arddangos technegau hyfforddi gyda chŵn sydd yn berchen i chi neu eraill
17. rheoli cyflwyno a chyfathrebu gydag unigolyn neu unigolion o fewn grwpiau o feintiau amrywiol a lle bo angen, gweithio gydag unigolion y tu allan i'r grŵp i gadarnhau bod perfformiad yn cael ei gynnal yn y grŵp
18. monitro effaith yr hyfforddiant ar iechyd a lles y ci a chydnabod os yw'r rhaglen hyfforddiant neu dasg benodol yn debygol o fod yn niweidiol yn y tymor byr neu'r hirdymor
19. monitro cynnydd y ci â'r triniwr tuag at gyflawni rhaglen hyfforddiant, ac addasu dulliau hyfforddiant neu ganlyniadau dymunol lle bo angen
20. dangos i'r triniwr sut i roi adborth addas i'r ci i ddatblygu perthynas effeithiol a monitro'r rhyngweithio rhwng y ci â'r triniwr yn barhaus
21. gwybod pan nad yw'n bosibl i'r ci neu'r triniwr gyflawni canlyniad hyfforddi a chymryd camau priodol
22. cydnabod eich cyfyngiadau eich hun ac atgyfeirio at weithiwr proffesiynol priodol lle bo angen e.e. uwch hyfforddwr, ymddygiadwr teulu'r ci neu lawfeddyg milfeddygol
23. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cadw a'u storio yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisi sefydliadol
24. cynnal ymddygiad proffesiynol a moesegol a gweithio o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd, profiad â'r ddeddfwriaeth berthnasol
25. cynnal cymhwysedd proffesiynol trwy gynnal Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) a gweithio o fewn gofynion y sefydliad proffesiynol perthnasol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid ac yn benodol i gŵn, polisïau lleol a chodau ymarfer cysylltiedig, a therfynau cyfreithiol y Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol yn ymwneud â diagnosis a thrin clefydau neu anafiadau
2. y ffordd y gellir asesu a thrin anghenion lles cŵn yr ydych yn ymgysylltu â nhw cyn ac yn ystod hyfforddiant
3. diben hyfforddi'r ci a chanlyniad dymunol yr hyfforddiant
4. sut i gael a dehongli gwybodaeth am y ci â'r triniwr ac unrhyw ffactorau a allai effeithio ar ddyluniad rhaglen hyfforddi
5. pwysigrwydd asesu addasrwydd y ci â'r triniwr i wneud yr hyfforddiant yn cynnwys
6. pwysigrwydd arsylwi ac asesu ymddygiad a chyflwr cŵn cyn ac yn ystod gweithgareddau hyfforddiant a chymryd camau priodol fel sydd angen
7. anatomeg a ffisioleg gweithredol cŵn a sut i asesu effeithiau tymor byr a hirdymor posibl yr hyfforddiant ar iechyd a lles y ci, yn ffisiolegol ac yn seicolegol
8. sut mae cŵn yn dysgu â'r ffactorau ffisegol, seicolegol ac amgylcheddol sydd yn effeithio ar ddysgu, yn cynnwys ffordd o fyw gyda'r triniwr yn eu hamgylchedd arferol
9. sut mae pobl yn dysgu â'r ffactorau ffisegol, seicolegol ac amgylcheddol sydd yn effeithio ar ddysgu
10. yr egwyddorion, y technegau â'r dulliau a ddefnyddir wrth hyfforddi cŵn a thrinwyr, a beth i'w ystyried wrth ddewis y dechneg â'r dull perthnasol o hyfforddiant ar gyfer ci penodol neu ganlyniad hyfforddi dymunol
11. y defnydd cywir â'r camddefnydd posibl o'r cyfarpar hyfforddi sydd ar gael, yr effaith ffisiolegol a seicolegol ar y ci a'i iechyd a'i les a phwysigrwydd addysgu'r triniwr mewn arfer da
12. goblygiadau peidio hyfforddi mewn ffordd addas, a chanlyniadau caniatáu i gi fod allan o reolaeth
13. y defnydd o atgyfnerthu cadarnhaol a negyddol ac effeithiau'r ymagweddau hyn ar ymddygiad, iechyd a lles cŵn
14. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol iechyd a diogelwch, codau ymarfer cysylltiedig ac unrhyw bolisïau neu weithdrefnau sydd yn berthnasol i'r hyfforddiant neu'r lleoliad

15. sut i roi mesurau iechyd a diogelwch ar waith i sicrhau bod system hyfforddiant ddiogel wedi ei sefydlu ac yn cael ei dilyn yn ystod hyfforddiant, yn cynnwys y mesurau sydd yn ofynnol i atal anaf i'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'r sesiwn hyfforddiant, neu wedi eu heffeithio ganddi
16. sut i adnabod, gwerthuso a mynd i'r afael ag ymddygiad y ci trwy gydol yr hyfforddiant yn cynnwys straen, gorbryder, ofnau, ffobiâu, atgasedd, ymosodedd, poen, gwrthdaro ac osgoi
17. sut i reoli a gofalu am grŵp o drinwyr gyda chŵn o fewn amgylchedd hyfforddi
18. sut i sicrhau bod lles y ci yn cael ei gynnal drwy'r amser ac nad yw eich ymddygiad neu ymddygiad y rheiny sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo, yn achosi adweithiau niweidiol, ofn neu drallod i'r ci
19. y cyfathrebu nad yw'n llafar a dangosyddion straen i'r triniwr â'r camau i'w cymryd
20. y ffactorau a allai effeithio ar gynnydd a llwyddiant yr hyfforddiant a phwysigrwydd monitro a gwerthuso ei gynnydd ac adolygu ac ailymweld â'r rhaglen hyfforddiant lle bo angen
21. sut i wybod pan fydd canlyniadau hyfforddiant yn dangos nad yw'r triniwr a/neu'r ci yn addas ar gyfer y gweithgaredd y maent yn cael eu hyfforddi ar ei gyfer neu nad ydynt yn addas i weithio gyda'i gilydd
22. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda phawb sydd yn gysylltiedig â'r rhaglen hyfforddiant
23. pwysigrwydd cael cyngor ac arweiniad gan weithwyr proffesiynol mwy profiadol, ble i gael cyngor ac arweiniad proffesiynol a phryd dylid atgyfeirio ci at lawfeddyg milfeddygol neu weithiwr proffesiynol arall
24. pwysigrwydd a pherthnasedd cadw cofnodion hyfforddiant yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol a pholisi sefydliadol
25. pwysigrwydd diogelwch yswiriant priodol, yn cynnwys indemnedd proffesiynol
26. pwysigrwydd Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) i gynnal cymhwysedd proffesiynol a rôl cyrff proffesiynol a chymdeithasau

## Cwmpas/Ystod